Dolen LESOTHO CYMRU

Lleola byd-eang

Taith

Meddwl am y Dyfodol

Dysgu drwy gysylltiadau rhyngwladol ymhen 40 a 200 mlynedd

Y gymuned leol a byd-eang, nawr ac yn y gorffennol

CYNNWYS:

1.Cymru Gynnar
2.Tarddiad Cenedl
3.Bwyd yng Nghymru
4.Bwyd yn Lesotho
5.Gwisg Genedlaethol Cymru
6.Gwisg Genedlaethol Lesotho
7.Podlediadau

Mae’r adnodd addysgu hwn yn darparu gwybodaeth testun ategol y bydd ei angen arnoch i gyflwyno'r gweithgareddau addysgu ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 a 4 DOLEN PECYN YMA Cyfnod Allweddol 2 DOLEN YMA

SCAN ME

Sganiwch y cod QR i weld y pecyn Padlet - ychwanegwch waith eich disgyblion ac ymunwch â’n cymuned fyd-eang o arweinwyr

Cydnabyddiaethau
Wedi’i ddatblygu mewn partneriaeth â Taith a Dolen Cymru Lesotho, mae'r adnodd hwn wedi’i seilio ar leisiau a phrofiadau bywyd cymunedau, addysgwyr, a phobl ifanc yng Nghymru a Lesotho. Wedi’i ariannu gan Lywodraeth Cymru 2025-6.

Dolen LESOTHO CYMRU

Taith

Cymru Gynnar

Mae pobl wedi byw yng Nghymru ers y cyfnod cynhanesyddol. Mae'r dystiolaeth gynharaf o bresenoldeb dynol yn dyddio'n ôl i tua 230,000 o flynyddoedd yn ôl, gyda gweddillion fel y rhai a geir yn Ogof Pontnewydd yng Ngogledd Cymru.
Dechreuodd goresgyniad y Rhufeiniaid o Brydain yn 43 OC. Erbyn 78 OC, roedd y Rhufeiniaid wedi goresgyn y rhan helaeth o Gymru, er gwaethaf gwrthwynebiad gan lwythau brodorol megis y Silwriaid a'r Ordofigiaid.
Adeiladodd y Rhufeiniaid gaerau, ffyrdd ac aneddiadau. Enghraifft dda yw Caerllion (Isca Augusta), a oedd yn gartref i ran o'r Ail Leng Awgwstaidd.
Fe wnaethant gyflwyno diwylliant Rhufeinig, ond arhosodd tirwedd Cymru yn wledig a llwythol i raddau helaeth.

Ar ôl i'r Rhufeiniaid adael Prydain ar ddechrau'r 5ed ganrif,

daeth arweinwyr lleol a theyrnasoedd Celtaidd i'r amlwg yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys Gwynedd, Powys, Dyfed a Gwent.

Gelwir y cyfnod hwn yn "Oes y Seintiau" weithiau oherwydd

lledaeniad Cristionogaeth. Sefydlwyd nifer o eglwysi a mynachdai gan y seintiau cynnar fel Dewi Sant, Illtud Sant, a Teilo Sant.

Gwelodd y cyfnod hwn dwf **hunaniaeth Gymreig**, ar wahân i ddiwylliant Eingl-sacsonaidd Lloegr.

Lleol a Byd-eang

"Gwnewch y pethau bychain"

Geiriau olaf Dewi Sant i'w ddilynwyr.

Dywedir fod Ffynnon Non wedi codi o'r man lle y bu iddi roi genedigaeth i Dewi Sant.

Brenhinoedd a Chyfreithiau Cynnar

Rhwng 800 a 1066 OC, rhannwyd Cymru yn deyrnasoedd llai, pob un a'i brenin ei hun. Roedd y brenhinoedd hyn yn arweinwyr cadarn a oedd yn wrachod eu pobl, yn brwydo â goresgynwyr, ac yn creu deddfau i gadw trefn.

Rhodri Mawr, teyrnasodd oddeutu 844-878 OC. Ef oedd y cyntaf o'r arweinwyr mawr i uno nifer o deyrnasoedd Cymru, gan gynnwys Gwynedd, Powys a Cheredigion ac fe'i cofir am amddiffyn Cymru yn erbyn cyrchoedd y Llychlynwyr. Er na deyrnasodd dros Gymru gyfan, cychwynnodd y syniad o genedl Gymreig unedig a gosododd esiampl ar gyfer y brenhinoedd a ddaeth ar ei ôl a oedd yn dymuno uno Cymru.

Hywel Dda, teyrnasodd oddeutu 910-950 OC. Hywel oedd ŵyr Rhodri Mawr. Yn frenin a ddaeth i rym yn ystod cyfnod cythryblus, rheolodd Hywel ardal fawr o Gymru, gan gynnwys y Deheubarth, ac yn ddiweddarach, rhannau helaeth o Wynedd. Fe'i cofir am greu system o gyfreithiau a elwir yn **"Gyfraith Hywel"**. Roedd ei gyfreithiau'n flaengar, yn deg, ac yn dangos parch gwirioneddol at gyfiawnder.



Hywel Dda-Wikimedia Commons

Darlun o Rhodri Mawr o'r 16eg Ganrif-Wikimedia Commons

Cyfraith Hywel

Ysgrifennwyd cyfreithiau Hywel yn **Gymraeg** ac nid yn Lladin, gan fod hyn yn bwysig ar gyfer hunaniaeth Gymreig.

Prif Nodweddion ei Gyfreithiau:

- Iawndal yn hytrach na chosb: Os oedd rhywun yn cael ei niweidio, roedd yn rhaid i'r troseddwr dalu iawndal (a elwir yn galanas) i deulu'r dioddefwr.
- Tegwch: Roedd ei ddeddfau yn gwarchod merched, plant, a'r tlawd.
- Ar sail tystiolaeth: Roedd yn rhaid i bobl ddarparu tystion i brofi eu hachos yn y llys.
- Parch at dir a theulu: Roedd ei ddeddfau eiddo yn galluogi i deuluoedd gadw tir am genedlaethau.

Tarddiad Cenedl

Khotso, Pula, Nala

Moshoeshoe-I: Wikimedia Commons

Yn gynnar yn y 1800au bu llawer iawn o fudo a chynnwrf yn Ne Affrica, yn bennaf o ganlyniad i'r Lifaqane (mudo gorfodol).

Ystyrir Moshoeshoe fel tad pobl Basotho gan mai ef oedd yn gyfrifol am ddod â'r Sotho gwasgaredig ynghyd, a oedd wedi cael eu gyrru ar wasgar gan gyrchoedd y Zulu a'r Ndebele, ac am greu Lesotho, Teyrnas Basotho.

https://commons.wikimedia.org/wiki/Template:PD-US

Daeth Moshoeshoe yn bennaeth llwyth ar grŵp bychan o ddynion ifanc o'r un oedran yn ystod dechrau'r 1800au. Amddiffynnodd fynyddig yn Butha Buthe yng ngogledd-ddwyrain Lesotho, tra bod y gwersyll mewn sefyllfa gref, roedd amryw o grwpiau eraill yn parhau i ymosod ar y llwyth. Nid oedd Moshoeshoe yn teimlo'n ddiogel yn Butha Buthe mwyach a dechreuodd chwilio am leoliad arall.

Lleol a byd-eang

Creodd erydiad y tywodfaen gan afonydd yr iseldir fynyddoedd gwastad, gwasgaredig. Ar ôl darganfod lleoliad bron yn anhreiddiadwy tua 30km o Maseru, penderfynodd Moshoeshoe symud ei lwyth i'r ardal fwy diogel hon o'r enw Thaba Bosiu, sy'n golygu 'mynydd yn y nos'. Bron yn anorchfygol gan fod modd amddiffyn yr unig lwybrau mynediad, roedd nentydd yno hefyd a allai gynnal hyd at 3000 o bobl a'u hanifeiliaid, gan alluogi Moshoeshoe i amddiffyn ei bobl yn llwyddiannus rhag ymosodiadau gan yr Ndebele, y Griquas, y Boeriaid ar sawl achlysur, a'r Prydeinwyr. Ysbrydolodd doethineb a thrugaredd Moshoeshoe deyrngarwch gan y rhai o'i gwmpas ac felly crëwyd Teyrnas Lesotho.

Thaba Bosiu https://creativecommons.org/licenses/by-sa/3.0/

Rheolaeth Drefedigaethol

Ym 1867 a 1868 cafodd yrhan fwyaf o dir Moshoeshoe ei oresgyn gany Boeriaid o Weriniaeth Rydd yr Oren, a gofynnoddi'r Prydeinwyram warchodaeth. Er mwyn rhwystro ymdrechion y Boeriaid i'w hymgorffori'n uniongyrchol yng Ngweriniaeth Rydd yr Oren, cyhoeddwyd Basutoland, fel y'i gelwid bryd hynny, yn diriogaeth frenhinol Brydeinig ym 1868.

Arhosodd y diriogaeth yn ddiffynwlad Brydeinig am ddwy flynedd, hyd nes marwolaeth Moshoeshoe ym 1870. Wedi hynny, cydiwyd Basutoland â grym wrth Drefedigaeth y Penrhyn Prydeinig, a fyddai'n cael yr hawl i hunan-lywodraethu'n fuan wedi hynny.

O ganlyniad, cafodd y Basotho eu rheoli gan ynadon gwyn o Drefedigaeth y Penrhyn, a ymyrrodd ag awdurdod y penaethiaid a chyfreithiau traddodiadol y Basotho. Cawsant eu dadleoli a'u gorfodi i weithio ar ffermydd a mwyngloddiau oedd yn eiddo i'r bobl wyn.

Ym 1879, yn rhwystredig dan eu rheolaeth, ymosododd penaethiaid Basotho ar ynadon Trefedigaeth y Penrhyn a datgan eu dymuniad i hunan-lywodraethu. I ddial, anfonwyd milwyr y Penrhyn i Basutoland ac erbyn y flwyddyn ganlynol, penderfynodd llywodraeth y Penrhyn orfodi Deddf Diarfogi 1879.

Dilynodd rhyfel cartref rhwng penaethiaid y Sotho, wrth i rai ohonynt wrthwynebu'r Ddeddf a rhai eraill weithio ar y cyd â Threfedigaeth y Penrhyn. Gan fod milwyr Basotho yn fwy niferus, daeth Rhyfel Gynnau neu wrthryfel Basotho â 10 mlynedd o reolaeth gan Drefedigaeth y Penrhyn i ben.

Ym 1884, penderfynodd Trefedigaeth y Penrhyn, gan ofni y byddai mwy o ryfela, roi Basutoland, fel y'i gelwir bryd hynny, yn uniongyrchol i lywodraeth Prydain. Daeth Basutoland yn Diriogaeth Uchel Gomisiwn Prydain, a chynhaliwyd pwerau penaethiaid y Sotho.

“Pan frwydra dau frawd hyd at farw, yr estron aetifedda’r cyfoeth.”

Idiom Nigeraidd

Mae cysylltiad â llwyth yn chwarae rhan hanfodol yn hunaniaeth Basotho, yn arwydd o linach hynafol a pherthyn cymdeithasol. Mae’r prif lwythi’n cynnwys y Bataung, Basia, Bafokeng, Makgolokoe, a'r Bakuena. Mae gan lwyth y Bakuena arwyddocâd hanesyddol arbennig fel llinach teulu brenhinol Lesotho, gan symboleiddio parhad ac arweinyddiaeth o fewn cenedl y Basotho.

Brenin Letsie III a’r Frenhines Masenate Mohato Seeiso

Creative Commons https://creativecommons.org/licenses/by- sa/2.0/deed.en

Dolenni Pellach

CYMRU

Cymru Gynhanesyddol | Cadw

https://youtu.be/KQPEpPYn8Is Roman Wales | Cadw

Welsh Saints: A Concise Overview of Their Lives and Legacies - Entirely Wales

St David: Ten things to know about the patron saint of Wales - BBC News

Rhodri Mawr

The great Kings of early Wales.

Blank world map

LESOTHO

Basotho Wars 1858 - 1868 | South African History Online

Basutoland | British Empire, Africa | History Worksheets

British Policy towards the High Commission Territories on JSTOR

The impact of colonial rule in Lesotho society

https://www.mexicohistorico.com/paginas/the-impact-of-colonial-rule-on-lesotho- society-f920bc4a.html

A Personal Musing on Basotho Clans - MatheVK

20 Things You Should Know About the Lesotho Royal Family and Chieftainship - Lesotho News

Bwyd yng Nghymru

“Bwyd yw ein tir cyffredin, mae’n brofiad hollgyffredinol.” James Beard

Mae hanes ffermio yng Nghymru yn un hir a balch. Am yr oddeutu 4,000 o flynyddoedd diwethaf, mae ffermwyr wedi bod yn trin y tir ac yn bugeilio anifeiliaid, er mwyn i ni allu bwyta a chael dillad. Mae Cymru tua 8,000 milltir sgwâr o ran arwynebedd. Amcangyfrifir bod tua 88% o'r tir yn cael ei ffermio. Mae ffermio Cymru yn chwarae rhan hanfodol yn yr economi, gydag amaethyddiaeth, pysgota a choedwigaeth yn cyfrif ar 1.8% o gyfanswm cyflogaeth yng Nghymru yn 2022. Yn gyffredinol, mae’r Gymraeg yn dal ei gafael gryfaf mewn ardaloedd amaethyddol, ac yn iaith naturiol yn yr ardaloedd hynny. Y prif gynhyrchion yw cig coch, cig oen a chig eidion yn bennaf, a llaeth.

Mae pŵer archfarchnadoedd wedi datblygu i'r fath raddau fel y gallant gynnig i ffermwyr beth bynnag y dymunant, oni bai bod prinder dros dro am rywbeth. Gallant hefyd ostwng y pris y cytunwyd arno i lawr – ‘Rhaid i chi gymryd ceiniog yn llai am bob un o’ch bresych oherwydd gallwn fewnforio cyflenwad rhatach. Mae fyny i chi Mr Ffarmwr, cewch dderbyn y pris neu adael i’ch bresych bydru yn y cae... nid ydym eisiau’r rhai sy’n rhy fawr nac yn rhy fach chwaith’. Felly mae ffermwyr Cymru eisiau cadw masnach cig oen a chig eidion gydag Ewrop, oherwydd bod prisiau'n well, ar adegau pan fydd archfarchnadoedd ym Mhrydain o bosibl yn mewnforio cig o Seland Newydd. Mantra y farchnad yw ‘Bwyd Rhad!’. Nid yw hynny’r un peth â bwyd da, maethlon, sy’n cael ei gynhyrchu at safonau iechyd a lles da. Mae’n dirywio parch at fwyd. Mae’n golygu bod rhaid i ffermwyr weithio’n galetach i aros yn hyfyw yn ariannol, gyda chost i'w hiechyd corfforol a meddyliol. Mae'n cynyddu milltiroedd bwyd yn ddiangen. Er ein bod ni i gyd yn ddiolchgar bod digon o fwyd ar y silffoedd, mae'n hen bryd i ni feddwl beth yn union yw cost y bwyd 'rhad' hwn mewn termau anariannol. Y gost i’r amgylchedd, y gost i gymunedau.

Mae Cynllun Ffermio Cynaliadwy dadleuol Llywodraeth Cymru wedi dod dan wrthwynebiad ffyrnig gan rai ffermwyr ynghylch gofyniad iddynt orchuddio 20% o'u tir â choed neu gynefinoedd naturiol eraill. Gallai hyn gymryd tir sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer cynhyrchu bwyd a gallai gymryd ffynonellau incwm hanfodol i ffwrdd o ffermydd sy'n ei chael hi'n anodd.

https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0

Mae Trecadwgan yn fferm hardd, draddodiadol gyda hanes yn dyddio’n ôl i’r 14eg Ganrif, gyda chysylltiadau hyd yn oed yn bellach yn ôl i oes Tywysog Cadwgan. Mae wedi’i lleoli lle mae tri llwybr hynafol yn cwrdd ar flaen Cwm Solfach. Mae ffermydd fel hyn yn cael eu colli, unai’n cael eu llyncu gan fentrau ffermio diwydiannol mwy neu’n cael eu gwerthu ar gyfer datblygiadau, gan adael dim ond ychydig iawn o gyfleoedd.

Lleol a Byd-eang

Bwyd Traddodiadol

Ychydig o gofnodion ysgrifenedig sydd o fwydydd traddodiadol Cymru; cadwyd ryseitiau o fewn teuluoedd a'u trosglwyddo ar lafar rhwng merched y teulu.

Datblygodd bwyd Cymru yn bennaf o fywydau gweithwyr Cymru, o ganlyniad i'r angen i gynhyrchu bwyd yn seiliedig ar y cynhwysion cyfyngedig y gallent eu cynhyrchu neu eu fforddio. Mae ffermio defaid yn helaeth yng Nghymru, gyda chig oen a chig dafad yn cael eu hystyried fel y cigoedd sydd fwyaf cysylltiedig â'r wlad yn draddodiadol. Mae gwartheg eidion a gwartheg godro hefyd yn cael eu magu'n eang, ac mae yna ddiwylliant pysgota cryf. Mae pysgodfeydd a physgota masnachol yn gyffredin ac mae bwyd môr yn rhan sylweddol o fwyd Cymru.

https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0

https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0

Cacennau Cri

Wedi'u pobi ers y 19eg ganrif, roedd cacennau cri Cymreig yn ffefryn gan y glowyr a'r plant fel ei gilydd ar gyfer ciniawa i lawr yn y pyllau glo neu ar gyfer te prynhawn. Gan gynnwys llawer o'r un cynhwysion â sgons, ond wedi'u coginio bron fel crempog, mae'r cacennau ysgafn hyn yn drysorau traddodiadol sy'n unigryw I Gymru.

Bara Lawr

Cynnyrch a wneir o lafwr, sef gwymon (littoral alga) sy'n cael ei fwyta'n bennaf yng Nghymru. Mae'n cael ei fwynhau gyda chocos neu ar dost.

http://creativecommons.org/licenses/by-sa/3.0/

Mae **Cawl** yn bryd traddodiadol Cymreig a wneir â chig oen Cymreig (neu gig eidion) a llysiau tymhorol megis cennin, rwdins, nionod, bresych a moron a mae'n cael ei goginio'n araf ei weini mewn potes â chig sy'n debyg i stiw.

Mae **Caws Pob Cymreig** yn bryd traddodiadol a wneir â chaws tawdd sawrus ac mae fel arfer yn cynnwys caws Cheddar siarp, cwrw, menyn, saws Caerwrangon a mwstard. Caiff y saws cyfoethog ei weini ar dost.

https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0

https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0

Selsig Glamorgan Mae selsig Glamorgan yn selsig llysieuol traddodiadol Cymreig wedi'i wneud gyda chaws, cennin a briwsion bara.

Bwyd Basotho

"Mae ein ffermwyr yn golygu popeth i ni oherwydd eu bod nhw'n cynnal ein meddwl, ein corff a'n henaid."

Ffermio er Cynhaliaeth

Yn ucheldiroedd Lesotho, mae'r Basotho yn ffermio'n bennaf er mwyn bwydo'u teuluoedd. Fodd bynnag, yn yr iseldiroedd, mae pobl yn ffermio i fwydo'u teuluoedd ac i wneud bywoliaeth. Maen nhw'n plannu grawn megis corn, sorghum (grawnfwyd) a gwenith ynghyd â ffa a phys. Ystyrir mai llysiau traddodiadol Basotho yw'r rhai mwyaf maethlon, mae'r rhain yn cynnwys; Leshoabe, Sebitsa, Bobatsi, Seshoa-bohloko. Defnyddir gwartheg ac erydr i ffermio'r tir a hofiau i chwynnu.

/CREATIVECOMMONS.ORG/LICENSES/BY-SA/4.0

Yn ystod y cyfnod cynhaeaf, defnyddiwyd y system matsema, lle'r oedd pobl y gymuned yn dod ynghyd i helpu ei gilydd. Mae rhai cymunedau mewn ardaloedd gwledig yn Lesotho yn parhau i wneud hyn. Mewn rhai lleoedd, gan gynnwys yn yr iseldiroedd, mae pobl weithiau'n dibynnu ar weithwyr cyflogedig.

Yn fwy diweddar, mae rhai teuluoedd wedi dechrau defnyddio peiriannau amaethyddol fel cynaeafwr ar gyfer cynaeafu. Mae'r peiriannau hyn yn eiddo i'r llywodraeth.

Yn ystod y broses gynaeafu, mae cnydau'n cael eu dinistrio oherwydd triniaeth wael sy'n achosi anniogelrwydd bwyd. Mae glaw annibynadwy a thymheredd eithafol hefyd yn arwain at fethiant cnydau sy'n achosi newyn i'r rhai sy'n dibynnu'n llwyr ar ffermio cynhaliaeth.

CREATIVECOMMONS.ORG/LICENSES/BY-SA/4.0

Lleol a Byd-eang

Prydau Traddodiadol

Ar ôl cynaeafu, mae'r bwyd yn cael ei storio mewn llofftydd ŷd mawr (sesiu) a adeiladwyd mewn tai i atal cnydau rhag pydru mewn tywydd garw ac at ddibenion diogelwch.

Mae Lesotho yn dibynnu'n bennaf ar fewnforion yn hytrach nag allforio cnydau. Mewn ardaloedd trefol, mae bwyd yn cael ei ddosbarthu o siopau manwerthu mawr yn Ne Affrica i siopau Lesotho. Mewn ardaloedd gwledig, mae'r Basotho yn byw ar fwydydd traddodiadol gan gynnwys blawd corn, pwmpenni, bwydydd wedi'u heplesu, ymysg eraill megis llysiau, cig a llaeth yn achlysurol.

CREATIVECOMMONS.ORG/LICENSES/BY-SA/4.0

Mae toes **cacennau saim (Makoenya)** yn cael ei siapio'n beli bach ac weithiau'n cael ei rolio ar flawd fel nad yw'n amsugno llawer o olew. Mae'r peli'n cael eu taflu i mewn olew poeth iawn a'u coginio nes eu bod yn lliw brown euraidd.

CREATIVECOMMONS.ORG/LICENSES/BY-SA/4.0

Mae samp yn gnewyll corn sych sydd wedi'u malu a'u torri'n fân,ond nid mor fân â blawd corn. Yn y broses, caiff haen allanol y cnewyllyn ei thynnu gan adael yr haen fewnol feddal. Mae samp yn cael ei goginio'n bennaf mewn gwahanol ddigwyddiadau neu ddathliadau ac mewn cartrefi yn bennaf yn y gaeaf

Mae Papa yn un o brif fwydydd Lesotho sy'n cael ei fwynhau ym mron pob cartref. Mae corn yn cael ei falu'n flawd corn neu'n flawd *meali*. Wedi'i ferwi mewn dŵr caiff ei gymysgu nes bydd yn drwchus

CREATIVECOMMONS.ORG/LICENSES/BY-SA/4.0

CREATIVECOMMONS.ORG/LICENSES/BY-SA/4.0

Mae **pennau a thraed ieir** fel arfer yn cael eu coginio mewn dŵr ac ychwanegir blas gyda halen. Maent yn aml yn cael eu bwyta fel byrbryd gan blant yn ystod amser egwyl.

Mae corn wedi'i rostio yn fyrbryd poblogaidd yn Lesotho. Yn yr ucheldiroedd mae cobiau corn gwyrdd yn cael eu rhostio gyda lludw poeth trwy eu gosod wrth ymyl tân agored.

CREATIVECOMMONS.ORG/LICENSES/BY-SA/4.0

Dolenni Pellach

CYMRU

Food growing resources and activities

Wonderful Welsh recipes-BBC Food

Traditional foods Basotho Food.docx

Save Trecadwgan Farm

Sustainable Farming Scheme

LESOTHO



Ymwelydd yn blasu bwyd lleol

Coginio bwyd yn Lesotho

Tyfu bwyd

Bwyd Traddodia d ol

Gwisg Genedlaethol Cymru

Datblygodd y ddelwedd boblogaidd o wisg 'genedlaethol' Cymru, sy'n cynnwys dynes mewn clogyn gwlân coch a het ddu dal, yn bennaf yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd y wisg hon yn rhan o ymdrech bwrpasol i adfywio diwylliant Cymru.

Mae'r wisg a ystyrir yn wisg genedlaethol yn seiliedig ar y dillad a wisgwyd gan ferched gwledig Cymru ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fel arfer, roedd yn cynnwys pais wlanen streipïog o dan wn gwlanen agored, ynghyd â ffedog, siôl, a hances neu gap. Roedd y gwn yn amrywio: roedd gynau llac tebyg i gotiau, gynau tynnach a sgertiau hir, yn ogystal â gynau byrrach yn debyg i wisg marchogaeth.

Roedd yr hetiau a wisgwyd yn gyffredin yn ystod y cyfnod hwn yn debyg i'r rhai a wisgwyd gan ddynion. Mae'n ymddangos bod yr het 'simnai' dal, a ddaeth yn boblogaidd ddiwedd y 1840au, yn gyfuniad o hetiau dynion a math o het uchel a wisgwyd rhwng 1790 a 1820. Roedd Augusta Hall, a elwid yn Arglwyddes Llanofer, yn wraig i haearnfeistr yng Ngwent a chwaraeodd ran arwyddocaol wrth hyrwyddo gwisgo gwisg 'genedlaethol'. Anogodd hyn yn ei chartref ac mewn eisteddfodau.

Credai'r Arglwyddes Llanofer ei bod yn hanfodol hyrwyddo'r iaith Gymraeg a mabwysiadu gwisg Gymreig adnabyddadwy. Bu ei hymdrechion yn llwyddiannus, yn rhannol oherwydd bod nifer o bobl yn teimlo bod eu hunaniaeth genedlaethol dan fygythiad, ac roedd gwisgo gwisg genedlaethol yn un ffordd o fynnu'r hunaniaeth honno. Ffactor arall a gyfrannodd at boblogeiddio'r wisg Gymreig nodweddiadol hon oedd gwaith artistiaid yn creu printiau ar gyfer y fasnach dwristaidd ffyniannus, a helpodd i atgyfnerthu'r syniad o wisg Gymreig. Yn ddiweddarach, cynhyrchodd ffotograffwyr filoedd o gardiau post yn cynnwys y wisg ystrydebol hon, gan fwrw cysgod dros yr amrywiaeth o arddulliau a oedd wedi bodoli yn gynharach yn y ganrif.

https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0

Lleol a Byd-eang

Gwehyddu a Thapestri

Mae gan Gymru draddodiad canrifoedd oed o gynhyrchu a gwehyddu gwlân, sy'n dyddio'n ôl i'r oesoedd canol. Roedd yr hinsawdd a'r dirwedd yn golygu fod Cymru'n ddelfrydol ar gyfer magu defaid, yn enwedig bridiau caled fel Defaid Mynydd Cymreig. Gwlân oedd diwydiant pwysicaf Cymru cyn glo, yn enwedig yn ystod yr 17eg–19eg ganrif

Cambrian Woollen Mill, Llanwrtydhttp://creativecommons.org/publicdomain/zero/1.0/deed.en

O'r 18fed ganrif, tyfodd melinau gwlân bach teuluol ledled cefn gwlad Cymru. Yn aml, roedd melinau'n cael eu pweru gan ddŵr, gan ddefnyddio nentydd cyfagos i droi gwyddiau a pheiriannau cribo.

Daeth trefi fel Dre-fach Felindre yn Sir Gaerfyrddin yn adnabyddus fel "Huddersfield Cymru" am gynhyrchu gwlân.

Y Flanced Gymreig

Un o gynhyrchion tecstilau mwyaf adnabyddus Cymru yw'r "flanced Gymreig", sy'n aml yn cael ei gwehyddu mewn patrymau geometrig neu flodeuog. Gwneir y blancedi hyn gan ddefnyddio techneg o'r enw gwehyddu brethyn dwbl, lle mae dwy haen o ffabrig yn cael eu gwehyddu gyda'i gilydd, gan greu blanced drwchus, gynnes a gwydn.

Yn draddodiadol, roedd y blancedi hyn yn cael eu gwehyddu â llaw a'u lliwio â lliwiau naturiol fel indigo neu fadr. Roeddent yn cael eu defnyddio ar gyfer nifer o ddibenion, gan gynnwys fel dillad gwely, siolau, ac i gario babanod. Heddiw, cyfeirir at y blancedi hyn yn gyffredin fel "blancedi tapestri Cymreig," gyda phatrymau sydd wedi'u trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth.

Yn aml, roeddent yn drysorau teuluol gwerthfawr, yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Ystyrid blancedi Cymreig hefyd yn anrhegion gwerthfawr i nodi priodasau neu enedigaeth plentyn. Mewn rhai cymunedau, roeddent yn chwarae rôl sylweddol mewn arferion angladdol, gan y byddent yn cael eu defnyddio i orchuddio'r ymadawedig cyn eu claddu.

https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0

Gwisg Draddodiadol

Cadw Hunaniaeth Ddiwylliannol

Yn Lesotho, mae gwisg draddodiadol yn fwy na dim ond dillad; mae'n ffordd o fynegi hunaniaeth ddiwylliannol, treftadaeth, a gwerthoedd. Mae'r Basotho yn falch o'u gwisg draddodiadol, gan ddathlu ei harddwch a'i harwyddocâd yn ystod amrywiol ddefodau a seremonïau, ac mewn bywyd bob dydd. Wrth i Lesotho barhau i esblygu, mae ei thapestri diwylliannol cyfoethog, a ymgorfforir yn ei gwisg draddodiadol, yn parhau i fod yn dyst i wydnwch a balchder ei phobl

Mae "Basotho Blankets @ Morija Museum" gan CymrudrosHeddwch - WalesforPeace wedi'i drwyddedu dan CCBY 2.0.

https://c r e ati ve c om m ons. or g /l i c e nse s/by/3. 0

https://creativecommons.org/licenses/by/3.0

Deunydd Seshoeshoe

Mae o arwyddocâd diwylliannol sylweddol yn Lesotho. Wedi'i gyflwyno i dde Affrica gan genhadon Ffrengig yn y 19eg ganrif, mae'r ffabrig cotwm hwn yn cynnwys dyluniadau cymhleth a lliwiau bywiog, gan ymgorffori patrymau geometrig neu fotiffau blodeuog yn aml. Defnyddir ffabrig Seshoeshoe yn gyffredin i wneud ffrogiau, sgertiau a sgarffiau pen traddodiadol a wisgir gan ferched Basotho yn ystod digwyddiadau seremonïol, fel priodasau, defodau derbyn a dathliadau eraill. Mae'r ffabrig yn symboleiddio ceinder, harddwch a balchder diwylliannol ymhlith merched Basotho.

Lleol a Byd-eang

Mae"Lesothodiwylliantdillad"ganOratile Leipegowedi'idrwyddedudan CC GAN-SA 4.0.

Mokorotlo (Het Sotho)

Mae'r Mokorotlo, neu'r Het Sotho, yn symbol arwyddluniol o ddiwylliant a hunaniaeth y Basotho. Wedi'i gwneud yn draddodiadol o wellt neu gyrs wedi'i wehyddu, mae'r het gonigol hon yn cael ei gwisgo gan ddynion a merched fel ei gilydd. Mae ganddi arwyddocâd ysbrydol ac mae'n gysylltiedig â chredoau cyndadol ac amddiffyniad. Mae dyluniad y Mokorotlo yn amrywio ar draws rhanbarthau ac achlysuron, gyda rhai hetiau wedi'u haddurno â phlu neu leiniau at ddibenion seremonïol. Yn aml, caiff yr Het Sotho ei gwisgo'n falch yn ystod digwyddiadau diwylliannol, seremonïau swyddogol, a dawnsio traddodiadol, gan symboleiddio undod a pharch at dreftadaeth Basotho

Gwisg Merched

Mae gwisgo traddodiadol pobl yn Lesotho yn dibynnu i raddau helaeth ar oedran unigolyn neu'r achlysur. Dyma'r gwahanol wisgoedd Sotho.

1.Sefaha sa letsopa

Mwclis allan o leiniau clai sy’n cael eu gwisgo gan ferched.

•Thethana ea banana

Ffrogiau wedi'u gwneud o leiniau clai a wisgir gan ferched.

•Mose oa lekoko

Sgertiau wedi’u gwneud o ffibr wedi’i wehyddu neu groen buwch.

•Tseha

Dilledyn isaf a wisgir gan fechgyn ifanc wedi'i wneud o groen dafad, ond wedi'i dorri’n siâp trionglog a'i glymu o amgylch y corff yn y fath fodd fel ei fod yn gorchuddio'r rhannau preifat. Ond cynyddodd yr hyd gydag oedran.

https://creativecommons.org/licenses/by/3.0

Mae Seana Marena yn cyfeirio at y wisg draddodiadol a wisgir gan fenywod Basotho. Fel arfer mae'n cynnwys blanced â dyluniadau hardd a wisgir dros ffrog neu sgert wedi'i gwneud o ffabrig Seshoeshoe. Mae'r flanced yn cael ei gosod yn gain dros yr ysgwyddau ac yn cael ei chadw yn ei lle gyda gwregys lledr. Yn aml, mae menywod yn gwisgo gemwaith â gleiniau, mwclis a chlustdlysau hefyd, gan ychwanegu steil personol a naws ddiwylliannol i'w gwisg.

Gwisg Dynion

I ddynion Basotho, mae'r Kobo yn wisg draddodiadol sy'n cynnwys Blanced Basotho a wisgir dros grys, trowsus, ac yn aml gyda Het Sotho. Mae Blanced Basotho â dibenion ymarferol a seremonïol, gan ddarparu cynhesrwydd yn hinsawdd oer y mynyddoedd tra hefyd yn symboleiddio hunaniaeth a balchder diwylliannol. Gall dynion wisgo gwahanol fathau o flancedi yn dibynnu ar yr achlysur, gyda phob dyluniad a phatrwm lliw ag ystyr benodol ac arwyddocâd diwylliannol.

Dolen Cymru Lesotho 2024

Blanced Basotho

Mae "Basotho Blankets @ Morija Museum" gan CymrudrosHeddwch - WalesforPeace wedi'i drwyddedu dan CC BY 2.0.

Yn 2024 ymwelodd Craig Owen o'r WCIA ag arddangosfa o flancedi Basotho yn Amgueddfa Morija yn Lesotho, gweler ei ffotograffau yma: **Basotho Blankets @ Morija Museum - Learning Resource | Flickr**

Efallai mai dyma'r darn mwyaf adnabyddus o wisg draddodiadol yn Lesotho. Gellir olrhain ei tharddiad i ddiwedd y 19eg ganrif pan gafodd ei chyflwyno gan fasnachwyr Ewropeaidd. Dros amser, daeth yn rhan bwysig o ddiwylliant a hunaniaeth y Basotho. Wedi'i gwneud â gwlân trwchus, mae'r flanced yn darparu cynhesrwydd rhag gaeafoedd oer Lesotho ac fe'i gwisgir yn aml dros yr ysgwyddau neu fel siôl. Mae'r blancedi yn cael eu haddurno gyda gwahanol ddyluniadau a lliwiau, pob un ag ystyr symbolaidd ac yn adlewyrchu statws neu lwyth y sawl sy'n ei gwisgo, neu'r achlysur.

Lesotho's Influence In Marvel's Black Panther

Costume highlights in the film is ofcourse the Traditional Lesotho Blankets offers offer a deep cultural significance...

The Blanketwrap

Dolenni Pellach

CYMRU

The traditional dress of Wales | Wales.com

Welsh Blankets – Beauty, Warmth, and a Little Bit of Home

How to Weave on a Cardboard Loom : 9 Steps (with Pictures) - Instructables

Diwydiant Gwlân Cymru - Llyfrgell Genedlaethol Cymru

The History of Tregwynt Woollen Mill' - Pembrokeshire Historical Society

The story of how Wales got its tapestry...

LESOTHO

The Mokorotlo – A Symbol of Unity

Traditional Basotho Dress | Help LesothoWhat is

Shweshwe/Shoeshoe? - Makotis AfricaThe story of

Seshoeshoe

2024 Shweshwe Fashion: Bold Patterns and Contemporary Designs – shweshwe 4u

https://www.morijamuseum.org/

British Museum

Young Basotho Designers

https://www.dolencymru.org/news-item/basotho-blanket-design-winner-announced-june-2025/

Podlediadau

CYMRU GYNNAR A THARDDIAD CENEDL

GwisgoeddTraddodiadioly Cymrya'r Basotho

Bwyd yng Nghymru a Lesotho

Dolen LESOTHOCYMRU

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

9Taith